



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG44606

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Newidiadau i drefniadau asesu ysgolion a phrospectws awdurdodau lleol

Dirymu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 a'r gofynion i gymedroli asesiadau diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 o flwyddyn academiaidd 2021 i 2022 ymlaen

Dileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copïau papur o'u prospectws i rieni/gofalwyr a dysgwyr sydd yn eu blwyddyn drosglwyddo mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Cyhoeddwyd: 9 Mai 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Adroddiad yw hwn yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad yn ceisio barn ar ddirymu'r gofynion ar gyfer cynnal yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 o flwyddyn academaidd 2021-2022 ac ymlaen. Byddai hyn yn dileu'r gofynion flwyddyn yn gynnar oherwydd, ym mis Medi 2022, bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd a roddir ar waith o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gymwys i'r grwpiau blwyddyn perthnasol.

Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu'r newidiadau canlyniadol sy'n cael eu cynnig o ganlyniad i ddileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2. Maent yn ymwneud â'r canlynol:

- Cymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2
- Adrodd i rieni/gofalwyr, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar ddirymu'r gofynion i gymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 o 2021-22 o ganlyniad i ddileu cymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 ac i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion â charfanau o ddysgwyr blwyddyn 9. Rhoddwyd cyfle hefyd i ymatebwyr grybwyll unrhyw oblygiadau ehangach yn ymwneud â'r newid o'r trefniadau asesu presennol i'r trefniadau asesu newydd.

Yn olaf, gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copïau papur o'u prosiectws blynyddol i'r holl rieni a disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac a allai drosglwyddo i ysgolion eraill a gynhelir.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Asesu
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Cathays Park
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: asesu@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am gynigion sy'n ymwneud â phrosiectws awdurdodau lleol:

Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SchoolsManagementDivision3@gov.wales

Mae'r ddogfen hon hefyd r gael yn Saesneg: <https://gov.wales/changes-current-school-assessment-arrangements-and-local-authority-prospectus>



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Y cefndir	5
Crynodeb o'r Ymatebion	9
Casgliad	17

Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ar gyfer dau faes polisi ar wahân. Fe'u cyfunwyd er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ymatebwyr, ar adeg o bwysau parhaus, a oedd mewn llawer o achosion yn debygol o fod o'r un sefydliadau e.e. ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol. Roedd y cyfnod ymgynghori ar agor o 14 Chwefror 2022 tan 1 Ebrill 2022.

Y cefndir

1.3 Cafodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2021. Mae'r Ddeddf yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cwricwlwm a threfniadau asesu newydd i Gymru, y disgwylir iddynt ddod i rym ar gyfer dysgwyr hyd at a chan gynnwys blwyddyn 6 o fis Mis 2022 ymlaen. Gall darparwyr sy'n addysgu dysgwyr blwyddyn 7 (gan gynnwys ysgolion uwchradd, ysgolion 3-16, ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion a darparwyr Addysg heblaw yn yr ysgol eraill) ddewis dechrau addysgu'r cwricwlwm newydd o'r dyddiad hwnnw. Bydd pob darparwr arall yn dechrau addysgu'r cwricwlwm am y tro cyntaf ar gyfer dysgwyr blwyddyn 7 a blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Cyflwynir y cwricwlwm fesul blwyddyn wedyn a chaiff ei roi ar waith ar gyfer dysgwyr blwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

Dileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2

Er mwyn cefnogi dysgwyr ac ymarferwyr wrth inni symud tuag at y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, mewn Datganiad Llafar i'r Senedd ar 6 Gorffennaf, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ei gynnig i ddileu'r gofynion i ymarferwyr gynnal asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 flwyddyn yn gynnar, gan ddileu'r naill a'r llall o flwyddyn academiaidd 2021-22 ymlaen.

Mae'r cynnig hwn yn helpu i greu mwy o le i ymarferwyr baratoi eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu ar gyfer mis Medi 2022 ymlaen. Mae hefyd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd iddynt symud tuag at y dull asesu sy'n rhan o fframwaith Cwricwlwm i Gymru, sydd i'w weld yn [Cefnogi cynnydd dysgwyr: Canllawiau asesu](#).

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'n glir mai diben asesu yw cefnogi cynnydd dysgwyr unigol gyda'r pwyslais ar ddeall ble mae dysgwr arni o ran ei ddysgu, sut mae wedi cyrraedd yno ac edrych ymlaen at ei gamau nesaf, gan nodi'r cymorth sydd ei angen arno i symud ymlaen. Felly, bydd dileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2, a chreu mwy o le, yn helpu ymarferwyr i gynllunio proses bontio fwy esmwyth i ddysgwyr wrth iddynt symud tuag at y trefniadau newydd. Mae'r gofynion statudol sy'n parhau mewn grym ar gyfer 2021-22, gan gynnwys yr asesiad sylfaenol, asesu llythrennedd a rhifedd yn barhaus a'r asesiadau personol ar-lein, hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar gefnogi cynnydd dysgwyr a rôl asesu fel rhan allweddol o addysgu a dysgu.

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn amlinellu diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth gysylltiedig a fyddai'n cael ei gwneud pe bai'r asesiadau hyn yn cael eu dileu. Byddai'r newidiadau canlyniadol hyn yn golygu dileu'r gofynion ar gyfer:

- Cymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2.
- Bod adroddiadau i rieni/gofalwyr yn cynnwys canlyniadau asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen neu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn perthynas â disgyblion ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 6.
- Byddai angen dirymu'r gofyniad i gyrff llywodraethu hysbysu awdurdodau lleol am ganlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.
- At hynny, byddai hefyd angen dirymu'r gofyniad i awdurdodau lleol hysbysu Llywodraeth Cymru am ganlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Dileu cymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 2

O ganlyniad i ddileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2, ni fyddai'n ofynnol mwyach i ysgolion ymgymryd â'r broses gymedroli gysylltiedig. Wrth i ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo gymedroli eu hasesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3 gyda'i gilydd, yn ymarferol heb eu diwygio byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ysgolion uwchradd roi trefniadau dros dro ar waith i gymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 gydag ysgolion uwchradd eraill nes bod y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn cyrraedd blwyddyn 9. Er mwyn osgoi rhoi'r baich ychwanegol hwn ar ysgolion uwchradd ac er mwyn creu rhywfaint o le iddynt baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, roedd yr ymgynghoriad yn cynnig dileu cymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3 o flwyddyn academaidd 2021-22.

Bydd yr asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 yn parhau mewn grym hyd nes y bydd y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn cyrraedd blwyddyn 9. Felly, cynigiwyd y dylid nodi mewn canllawiau y disgwyliad bod ysgolion yn parhau i sicrhau cysondeb i'w dysgwyr yn y modd y cânt eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, o fewn eu hysgol. Ni ddylai hyn arwain at broses fiwrocrataidd ar wahân

Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru nodi trefniadau asesu i gefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yn Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Mae Deddf 2002 yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi mewn Gorchymyn y trefniadau asesu sy'n briodol, yn eu barn nhw, ar gyfer Maes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen neu un o bynciau sylfaen Cyfnod Allweddol. Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu sut y byddai'r pwerau o dan Adran 108 o Ddeddf 2002 yn cael eu defnyddio i ddirymu'r gofynion ar gyfer asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 o flwyddyn academaidd 2021-22 ymlaen, flwyddyn cyn i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ddechrau cael eu cyflwyno. Mae hefyd yn cynnig defnyddio'r un pwerau i ddileu'r gofyniad i gymedroli asesiadau Diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3 o 2021-22 ymlaen.

Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 sy'n ymwneud â phrosiectws yr awdurdod lleol

Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi prospectws cyfansawdd blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth benodedig ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol. Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2011 yn nodi'r wybodaeth gyffredinol y mae'n rhaid ei chynnwys yn y prospectws. Diben y ddyletswydd yw sicrhau bod ystod o wybodaeth berthnasol ar gael i rieni i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ar yr ysgol yr hoffent i'w plentyn fod yn ddisgybl ynddi.

Rhaid i'r prospectws gael ei gyhoeddi erbyn 1 Hydref fan bellaf yn y flwyddyn ysgol gyhoeddi a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos cyn y dyddiad olaf pan gaiff rhieni ddweud pa ysgol fyddai orau ganddynt ar gyfer y flwyddyn derbyn i ysgolion. Mae rheoliad 5(2) yn ei gwneud yn ofynnol i brospectws cyfansawdd gael ei gyhoeddi:

- a) drwy sicrhau bod copïau ar gael i'w dosbarthu'n ddi-dâl i rieni ar gais yn swyddfeydd yr ALI sy'n ei gyhoeddi, ac ym mhob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw; a
- b) drwy sicrhau bod copïau ar gael i rieni a phersonau eraill gyfeirio atynt yn y llyfrgelloedd cyhoeddus yn ardal yr ALI hwnnw; a
- c) drwy ddosbarthu copïau yn ddi-dâl i rieni a disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALI, ac eithrio ysgolion arbennig neu Unedau Cyfeirio Disgyblion, sydd yn y flwyddyn olaf mewn ysgolion o'r fath ac a allai drosglwyddo i ysgolion eraill o'r fath a gynhelir; a
- d) drwy arddangos copi ar wefan yr awdurdod lleol.

Mae mwy a mwy o bobl yn cael mynediad at wybodaeth ar-lein drwy'r rhyngrwyd. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth am ysgolion, er enghraifft adroddiadau arolygu Estyn a data amrywiol am ysgolion ar wefan Fy Ysgol Leol.

Gall rhieni a phobl ifanc sydd â mynediad i'r rhyngrwyd gael gafael ar gopi o brospectws yr awdurdod lleol ar-lein. Gall y rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gael copi ar gais gan swyddfeydd yr awdurdod lleol neu o unrhyw ysgol yn ardal yr awdurdod lleol neu gallant gyfeirio atynt mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

Felly, roedd yr ymgynghoriad yn cynnig diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 i ddileu rheoliad 5(2)(c) - y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copïau papur o'u prospectws i bob rhiant a disgybl yn eu blwyddyn drosglwyddo, p'un a ydynt yn dymuno un ai peidio. Bydd y newid yn dileu baich gweinyddol ac ariannol diangen ar awdurdodau lleol, gan leihau'r amser a'r costau sy'n gysylltiedig ag argraffu, dosbarthu a storio y byddai'n well ei wario ar godi safonau ysgolion. Bydd y newid hefyd yn sicrhau nad yw rhieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo nad ydynt yn dymuno derbyn copi o'r prospectws yn cael un ac yn helpu i sicrhau bod prosesau awdurdodau lleol yn fwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar.

Crynodeb o'r ymatebion


Cafwyd 104 o ymatebion i'r ymgynghoriad . Cwblhaodd 90 o ymatebwyr yr ymgynghoriad ar-lein ac ymatebodd 14 drwy e-bost.

Ymatebwyr

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn ymarferwyr addysgol h.y. athrawon, penaethiaid ac uwch arweinwyr yn eu lleoliadau. Cafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan ysgolion cynradd, o bosibl oherwydd yr effaith uniongyrchol y byddai'r cynigion i ddileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn ei chael ar y lleoliadau hyn.

Cafwyd ymatebion hefyd gan eraill yn y sector addysg megis llywodraethwyr, consortia rhanbarthol, cynrychiolwyr partneriaethau ac awdurdodau lleol, yr arolygiaeth, undebau a rhieni.

Cwestiwn 1: 1 – Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, beth yw eich prif rôl?




Ymatebodd 84% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn bersonol. Roedd y rhai a ymatebodd ar ran sefydliad yn cynrychioli rhanddeiliaid yn y sector addysg yng Nghymru e.e. consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, undebau, Estyn.

Nodyn Technegol


Cafodd rhai defnyddwyr anhawster technegol gyda'r system arolygu ar-lein lle nad oedd y botwm 'cytuno'n gryf' yn ymddangos yn ystod wythnosau cyntaf yr ymgynghoriad. Am y rheswm hwn, mae'r opsiynau 'cytuno' a 'chytuno'n gryf' wedi'u cyfuno yn ein dadansoddiadau cryno drwy gydol y ddogfen hon.

Dileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2

Cwestiwn 4: *I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen o flwyddyn academaidd 2021 i 2022 ymlaen?*



Cwestiwn 5: *5 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 o flwyddyn academaidd 2021 i 2022 ymlaen?*



Dadansoddiad cryno

Oherwydd natur debyg cwestiynau 4 a 5 a'r ymatebion a gafwyd, mae'r sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cynigion i ddileu asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi'u cyfuno yn y dadansoddiad hwn.

Roedd cefnogaeth gref iawn i ddileu'r ddau asesiad o flwyddyn academaidd 2021-22 ymlaen. Roedd 83% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â dileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen, gydag 82% o ymatebwyr o blaid dileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2.

Wrth fynegi eu cefnogaeth i'r cynigion, nododd ymatebwyr nad oedd yr asesiadau hyn yn cyd-fynd â Chwricwlwm Cymru a byddai eu dileu yn rhoi mwy o amser i ysgolion gynllunio trosglwyddo i'r trefniadau newydd. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn cynnwys y datganiadau a ganlyn:

- *“Mae mwy o amser a lle i ganolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru a Thrawsnewid ADY tra'n helpu ysgolion hefyd i ddeall bod y Lefelau yn perthyn i'r gorffennol ac mai cynnydd disgyblion unigol a dysgu cam nesaf sy'n bwysig”*
- *“Dylai dileu'r gofynion hyn helpu ymarferwyr i gael mwy o amser a lle i baratoi ar gyfer eu cwricwlwm newydd a'u trefniadau asesu ar gyfer mis Medi 2022. Dylai hyn hefyd helpu i wella'r broses o drosglwyddo i'r cwricwlwm newydd, gan annog ymarferwyr i symud i ffwrdd o'r ffordd flaenorol o weithio a meddwl am asesu, a chynnig mwy o hyblygrwydd i ymarferwyr ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain yn seiliedig ar eu hanghenion asesu eu hunain.”*

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo nad oedd yr asesiadau hyn yn briodol ar gyfer dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen ac ysgolion arbennig:


- *“Gall plant symud ymlaen a datblygu ar gyfraddau gwahanol iawn ac nid yw eu labelu â chanlyniadau yn cyd-fynd ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a gall ddigalonni rhieni a disgyblion, gan roi'r ddau dan bwysau i gael eu gweld fel yr hyn sy'n "ddisgwyliedig”. ”*
- *“Mae'r pwysau ar athrawon Blwyddyn 2 i 'addysgu i brofion' yn golygu bod disgyblion yn colli allan ar gymaint o 'gwricwlwm seiliedig ar chwarae' y Cyfnod Sylfaen'.”*
- *“(Fel ysgol arbennig) nid yw asesiadau diwedd cyfnod yn berthnasol i'n disgyblion ac mae'n rhwystredig gorfod datgymhwyso disgyblion.”*

Dywedodd ymatebwyr eraill y byddai dirymu'r asesiadau hyn yn helpu i leddfu'r pwysau a roddir ar y dysgwr a'r ymarferydd i gyrraedd lefelau disgwyliedig penodol ac yn caniatáu iddynt ddatblygu darlun mwy cyfannol o'r dysgwr drwy asesu. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai dileu asesiad diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn arwain at oblygiadau o ran trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Ystyriwyd bod hyn yn gyfle i ysgolion cynradd ac uwchradd gytuno ar drefniadau

newydd a chydweithio arnynt gan na fydd ganddynt ddata asesu diwedd Cyfnod Allweddol 2 i'w rannu bellach.

Dileu'r broses o gymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3

Cwestiwn 6: 3 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddileu'r gofynion i gymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 o flwyddyn academaidd 2021 i 2022 ymlaen?



Dadansoddiad cryno

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddileu'r gofynion i gymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 gyda 66% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Dim ond 10% o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig.

Adlewyrchwyd nifer o themâu cyffredin yn yr adborth a gafwyd gan yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cynnig. Teimlent nad oedd cymedroli'n cyd-fynd ag ethos Cwricwlwm i Gymru a byddai dileu'r gofynion hyn yn creu lle i ysgolion baratoi ar gyfer y trefniadau newydd. Roedd yr adborth yn cynnwys y sylwadau canlynol:

- *“Removing the requirement to moderate at KS3 would allow more opportunity for planning and trialling elements of the new curriculum prior to its implementation.”*
- *“Moderating KS3 assessments while introducing the CfW will produce an extra layer of workload to an already busy profession.”*
- *“The removal of this requirement will give more time for secondary schools to focus on their preparation for introducing the Curriculum for Wales. It will also*

provide additional time for secondary schools to engage with their associate primary schools in designing a curriculum to support the transition of learners along the 3 – 16 continuum.”

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn, pe bai cymedroli'n cael ei ddileu, ei bod yn bwysig nodi cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio mewn clystyrau er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant i gefnogi'r camau nesaf i ddysgwyr yn ogystal â chefnogi pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn yn credu bod angen i ryw fath o asesiad fod ar waith ac yn cael ei gymedroli.

- *“I feel you need a baseline to work from for GCSE targets and to make informed judgements for pupil pathways. Without formal assessments pupils do not value examinations.”*
- *“Grades need to be moderated to check consistency”.*
- *“Concerned about the impact of no moderation for a period of time”.*

Ni wnaeth ymatebwyr sylwadau penodol ar yr agwedd ar y cynnig hwn a gynhwyswyd yn y ddogfen ymgynghori a oedd yn datgan y byddai Llywodraeth Cymru yn 'amlinellu mewn canllawiau ein disgwyliad bod ysgolion yn parhau i sicrhau cysondeb i'w dysgwyr yn y modd y maent yn cael eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Ni ddylai hyn arwain at broses fiwrocrataidd ar wahân.' 

Nodi goblygiadau ehangach

Cwestiwn 7: *Yn dilyn y cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, a oes unrhyw oblygiadau ehangach yn ymwneud â'r newid o'r trefniadau asesu presennol i'r trefniadau asesu newydd y dylid eu hystyried?*

Dadansoddiad cryno

Codwyd nifer o faterion gan gyfranogwyr mewn perthynas â'r goblygiadau ehangach a allai godi yn ystod y cyfnod pontio o'r trefniadau asesu presennol i asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Roedd yn amlwg mai pryder mwyaf nifer fawr o ymatebwyr oedd yr angen am ganllawiau pellach i egluro sut y bydd asesu ac adrodd yn gweithio o dan Gwricwlwm Cymru.

- *“Clearer guidance than is currently available is required as a matter of urgency.”*
- *“More guidance on assessment in line with the new curriculum.”*

- *“Welsh government has still not made clear to teachers how the new curriculum should be assessed and reported.”*
- *“But I feel schools need a lot more guidance on what is expected/ considered good practice moving forward. I am very pro removing EFPh and EKS2 assessments, however I do worry that this will lead to inconsistency between schools if there is no guidance on what is expected.”*

Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn cwestiynu beth fydd yn cymryd lle'r trefniadau presennol:

- *“There would need to be something that replaces end of KS3 assessments, but it could be more project-based activities or group tasks with more independent learning. Schools could determine the success / assessment criteria. It could be that students and teachers have a check list of skills that need to be demonstrated during the tasks”.*
- *“What is going to replace it...? Each school developing their own reliable assessment criteria will take a long time. Someone at some stage has got to decide what ‘good’ looks like. “*
- *“How are we assessing attainment? My confusion is with the progression steps in that we have been advised not to use them for assessment, only for planning. If not using these for assessment, then what? I feel that the expectation for schools to create their own rationale, curriculum planning and assessment arrangements is in many ways such an exciting prospect, yet under the current and recent climate is perhaps unrealistic.”*

Dileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig

Roedd cynrychiolwyr o ysgolion arbennig yn croesawu'r newidiadau a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad gydag un ymatebydd yn nodi *‘we are ready for the change to the new curriculum and assessment procedures - hopefully the achievements of pupils within special schools will be more widely recognised moving forward.’* Fodd bynnag, codwyd pryderon penodol gan gynrychiolwyr ysgolion arbennig gan nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys cynnig i ddileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 o flwyddyn academiaidd 2021-22 ymlaen. Amlinellodd un ymatebydd y broblem sy'n wynebu ysgolion arbennig fel a ganlyn:

- *“As a special school we run our classes according to stage, not age... This means that if we were to introduce CfW in September 2022, then we would be running two types of assessment arrangements side-by-side within our classes (i.e. CfW for Year 7 and KS3 assessments for the remainder). We are in a position where we have been preparing for delivery of CfW over the last 6 years and are very keen to begin the official implementation of CfW in*


September 2022; however, this would prove very difficult running two curricula and types of assessment side-by-side in the same classes.”

Er mwyn casglu rhagor o wybodaeth am y mater hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori, ymgysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru â grwpiau penaethiaid a dirprwy bennaethiaid ysgolion arbennig y gogledd a'r de. Argymhellodd yr ymarferwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn yn gryf y dylid dileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig o 2021-22 am y rhesymau canlynol:

- Maent yn addysgu yn ôl cam/angen yn hytrach nag oedran. Felly, byddai'n heriol i ymarferwyr fod yn asesu rhai dysgwyr â'r lefel fwyaf addas o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac eraill, o fewn yr un dosbarth, yn unol â threfniadau asesu Cwricwlwm i Gymru yr ysgol.
- Byddai goblygiadau llwyth gwaith i ymarferwyr redeg dwy system o fewn yr un dosbarth.
- Er mwyn gallu rhoi lefel i ddysgwr, mae'n rhaid i ymarferwyr ddefnyddio dulliau asesu sy'n wahanol i'w dulliau arferol ac mae hyn yn heriol iawn i'r dysgwr.
- Yn gyffredinol, dim ond carfanau bach iawn o ddysgwyr sy'n cael lefelau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 – mae'r gweddill wedi'u datgymhwyso gan nad yw'r asesiadau'n hygyrch iddynt. Awgrymodd rhai ysgolion nad ydynt wedi gallu rhoi lefelau i unrhyw un o'u dysgwyr ers nifer o flynyddoedd ac awgrymodd un arall mai dim ond i 3 allan o 240 o ddysgwyr y gallent roi lefelau yn fwyaf diweddar. Teimlwyd, felly, nad oedd yr asesiadau'n addas i'r diben mewn ysgolion arbennig.

Newidiadau i drefniadau prospectws awdurdodau lleol

Cwestiwn 8: *I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copiâu papur o'u protocol i bob rhiant/gofalwr a dysgwr yn eu blwyddyn drosglwyddo p'un a ydynt am gael copi ai peidio?*



Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn gyda 71% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn cytuno ac yn gwneud sylwadau hynny am resymau amgylcheddol. Roedd nifer llai yn teimlo bod y gofyniad presennol yn wastraff amser ac arian. Er eu bod yn cytuno â'r cynnig, pwysleisiodd sawl ymatebydd y dylai copïau papur fod ar gael ar gais i rieni a disgyblion nad oes ganddynt fynediad atynt yn ddigidol ac y dylid cyfleu hyn yn glir i rieni.

Roedd 8% o bobl naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gyda 3 ymatebydd yn rhoi'r sylwadau canlynol:

- Mae'n bwysig bod y rhieni wedi'u hysbysu'n llawn
- Efallai y bydd rhai problemau o ran rhieni/oedolion yn cael gafael ar wybodaeth ar y wefan.
- Mae'r system yn newid ac roedd gwaith papur diangen, gan awgrymu bod yr ymatebwr yn cytuno â'r cynnig.

O'r 21% o bobl nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, dim ond dau a roddodd sylwadau. Roedd un yn cydnabod y gall y prospectws fod ar gael ar-lein a chydabu'r llall nad yw pob teulu mewn sefyllfa i sicrhau bod y rhyngrwyd ar gael gartref neu fod y dyfeisiau ar gael yn rhwydd i'w defnyddio, felly mae'n ddoeth parhau i gynhyrchu rhywfaint o gopïau papur i sicrhau y gellir eu darparu ar gais.

Y Gymraeg

Ni chawsom unrhyw sylwadau a fyddai'n awgrymu y byddai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

Casgliadau

Dangosodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad gefnogaeth gref i'r cynnig i ddileu'r gofynion canlynol o 2021-22:

- Dileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen
- Dileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2
- Dileu cymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 (yn ogystal â'r newid canlyniadol o gael gwared ar gymedroli diwedd Cyfnod Allweddol 2)

Ni fydd y cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn effeithio ar y trefniadau ar gyfer asesiadau athrawon diwedd Cyfnod Allweddol 3 gan na fydd y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru'n cyrraedd Blwyddyn 9 nes 2024-25. Fodd bynnag, roedd y broses ymgynghori'n taflu goleuni ar faterion yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n benodol i ysgolion arbennig.

Gan fod ymarferwyr mewn ysgolion arbennig yn addysgu yn ôl anghenion dysgwyr yn hytrach na'u hoedran, mae dysgwyr o wahanol grwpiau blwyddyn yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd. Mae hyn yn achosi heriau yn y blynyddoedd interim wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno flwyddyn wrth flwyddyn, gan gyrraedd blwyddyn 9 ym mis Medi 2024. Heb newidiadau deddfwriaethol, bydd angen i ymarferwyr asesu o fewn yr un dosbarth rai dysgwyr sy'n defnyddio lefelau presennol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac eraill sy'n cael eu hasesu'n unol â threfniadau Cwricwlwm i Gymru yr ysgol. Mae mwyafrif y dysgwyr mewn ysgolion arbennig yng Nghymru yn cael eu tynnu o asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 bob blwyddyn gan nad yw'r asesiadau'n hygyrch iddynt.

Yn ogystal â rhoi adborth ar y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig, gofynnodd llawer o ymatebwyr am arweiniad a manylion pellach yn ymwneud â disgwyliadau ar gyfer asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Yn olaf, roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig i ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copïau papur o'u prospectws i'r holl rieni/gofalwyr a dysgwyr yn eu blwyddyn drosglwyddo.